# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 8FED TACHWEDD, 2018**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 31 Hydref 2018)

## PWYLLGOR PENSIYNAU

### AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Aled Wyn Jones
Simon Glyn
Peredur Jenkins
Peter Read

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
John Pughe Roberts

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Cynghorydd David Cowans | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Cynghorydd Robin Wyn Williams | Cyngor Ynys Mon |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 19.06.2018 fel rhai cywir

## 5. DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI — 8 - 18

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2018-2019 — 19 - 23

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

## 7. CYSONI ISAFSWM PENSIYNAU GWARANTEDIG — 24 - 25

I ystyried adroddiad y Rheolwr Pensiynau

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglyn a derbyn cynnig penodol ar gyfer cost trwydded meddalwedd sydd yn wybodaeth fasnachol sensitive. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu tanseilio hyder darparwyr i ddod a prisiau ymlaen gerbron y Cyngor a felly gallu'r Cyngor i gaffael yn llwyddianus. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma ystyri'r y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus

## 9. SYSTEM HUNAN WASANAETH AR GYFER AELODAU'R CYNLLUN PENSIYNAU

I ysytired adroddiad y Rheolwr Pensiynau

(Copiau arwahan i aelodau’r Pwyllgor yn unig)

**PWYLLGOR PENSIYNAU 19.06.2018**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, David Cowans (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Seimon Glyn, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Peter Read, John Pughe Roberts, Robin Williams (Cyngor Môn) ac Osian Richards (Bwrdd Pensiynau - Arsylwi)

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Diolchwyd i'r Cynghorydd Stephen Churchman am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau 2016 - 2018. Amlygwyd bod ychwanegiadau i gyfrifoldebau'r swydd wedi eu huchafu yn ddiweddar yn dilyn sefydlu'r Bwrdd Pensiwn a Chronfa Traws Cymru. Diolchwyd iddo am ei arweiniad, ei waith diflino mewn cyfnod heriol ac arloesol ac am ei waith fel Cadeirydd Cydbwyllgor y Bartneriaeth lle bu'n cynrychioli Cronfa Gwynedd gydag urddas.

Mewn ymateb, diolchodd y Cynghorydd Stephen Churchman am y geiriau caredig. Nododd fod y cyfnod wedi bod yn un prysur ond yn un diddorol iawn. Rhoddodd deyrnged i waith y swyddogion oedd yn gwasanaethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ynghyd a diolch arbennig i swyddogion y Cyngor am eu hymroddiad. Diolchodd hefyd i'r Pwyllgor am eu cefnogaeth.

Croesawyd y Cynghorydd Robin Williams (cynrychiolydd Cyngor Môn) i'w gyfarfod cyntaf. Diolchwyd i gyn cynrychiolydd Môn, y Cynghorydd John Griffith am ei wasanaeth.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.**

**2. ETHOL IS GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Peredur Jenkins yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**5. MATERION BRYS**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid dystysgrifau i'r Cynghorwyr Simon Glyn ac Aled W Jones am gwblhau hyfforddiant sylfaenol.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 15fed o Fawrth 2018 fel rhai cywir.

**7. PRESENOLDEB MEWN CYNADLEDDAU**

Cyflwynwyd gwybodaeth am gynadleddau perthnasol er mwyn dewis cynrychiolwyr i'w mynychu. Adroddwyd bod y Cyngor yn anfon cynrychiolwyr ar sail rota i nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn er mwyn cynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD anfon y cynrychiolwyr isod i'r cynadleddau:**

- Fforwm Buddsoddi Strategol LAPF, Swydd Hertford Gorffennaf 2018
  **Cynghorwyr Simon Glyn a Peter Read i wirio os gallasent fynychu, gyda'r Cynghorydd Stephen Churchman wrth gefn, heb swyddog.**

- Seminar Buddsoddi'r LGC, Casnewydd Medi 2018
  **Cynghorwyr John Pughe Roberts a Peredur Jenkins i fynychu, gyda'r Pennaeth Cyllid.**

- Cynhadledd flynyddol Fforwm Cronfa Pensiwn Awdurdod Lleol, Bournemouth Rhagfyr 2018
  **Cynghorydd John Pughe Roberts a Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) i fynychu, gyda chynrychiolydd o'r Bwrdd.**

- Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL, Bryste Ionawr 2019
  **Cynghorwyr John Brynmor Hughes a Robin Williams i fynychu, gyda swyddog a chynrychiolwyr o'r Bwrdd, a gyda'r Cynghorydd John Pughe Roberts wrth gefn.**

- Uwchgynhadledd flynyddol Russell Investments, Llundain Tachwedd 2018
  **Cynghorwyr John Pughe Roberts a  Peter Read i fynychu, gyda'r Pennaeth Cyllid.**

**8. DYDDIADAU CYFARFODYDD PENSIYNAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlygu dyddiadau cyfarfodydd pensiynau ar gyfer y flwyddyn 2018 / 2019 fel bod modd i'r aelodau nodi'r dyddiadau yn eu dyddiaduron a chynllunio ymlaen yn briodol.

Amlygwyd bod Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL yn cael ei gynnal ym Mryste ar y 17-18 o Ionawr 2019 oedd yn gwrthdaro gyda chyfarfod o'r Pwyllgor Pensiynau. Cynigiwyd newid dyddiad y Pwyllgor Pensiynau i Ionawr 21ain 2019 fel bod modd i Aelodau a Swyddogion fynychu'r gynhadledd.

Cyfeiriwyd at ddyddiadau'r Panel Buddsoddi sydd yn cael eu cynnal yn chwarterol i graffu perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn. Nodwyd bod y rhain yn cael eu cynnal yn Llundain a Caernarfon a chadarnhawyd mai'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Caernarfon fydd 21ain Chwefror 2019 a 16eg o Fai 2019.

**PENDERFYNWYD derbyn yr wybodaeth ac i addasu dyddiad Pwyllgor Pensiynau mis Ionawr 2019 i'r 21ain.**

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw**

**berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â bwriadau buddsoddi a phenderfyniadau am ddewis cwmnïau buddsoddi yn gallu effeithio yn niweidiol ar weithgareddau masnachol sensitif. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau yma roedd y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.**

## 10. DYRANIAD ASEDAU I GRONFEYDD ECWITI BYD-EANG PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r Pwyllgor am yr hawl i weithredu, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor ar ddyrannu asedau i gronfeydd ecwiti byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Amlygwyd bod diweddariadau cyson rheolaidd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wrth sefydlu pwl buddsoddi, yn unol â gofynion San Steffan. Eglurwyd mai amcanion y Llywodraeth oedd gwell deilliannau buddsoddi, lleihau risg a lleihau costau wrth alluogi pob awdurdod cyfansoddol i weithredu ei strategaeth fuddsoddi eu hunan.

Yn dilyn cyngor gan Weithredwr PPC ac i arddangos graddfa'r pwlio i'r Llywodraeth, dewiswyd ecwiti byd eang wedi ei reoli'n weithredol fel math o asedau ar gyfer y cronfeydd cyntaf, a nodwyd bu cyflwyniad gan Link a Russell i aelodau'r Pwyllgor ar 15 Mawrth, a chyfarfodydd anffurfiol ar 30 Ebrill a 17 Mai, lle derbyniwyd cyngor arbenigol ymgynghorydd Hymans Robertson ar y mater.

**PENDERFYNWYD:**

- **Yn unol ag argymhelliad A, bod y Pwyllgor Pensiynau yn cefnogi Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn sefydlu 2 gronfa ac i gynnwys y rheiny yn y prosbectws fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.**

- **Yn unol ag argymhelliad B, bod y Pwyllgor Pensiynau yn dirprwyo grym i'r Pennaeth Cyllid ail-ddyrannu 80% o asedau ecwiti byd-eang wedi'i reoli'n weithredol y Gronfa, yn gyfartal rhwng Cronfa 1 a Chronfa 2 Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben 2:30pm

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **8 TACHWEDD 2018** |
| TEITL: | **DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI** |
| PWRPAS: | **GOFYN I'R PWYLLGOR PENSIYNAU MABWYSIADU'R DATGANIAD DIWYGIEDIG** |
| ARGYMHELLIAD: | **CYMERADWYO'R DATGANIAD DIWYGIEDIG** |
| AWDUR: | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Roedd y Pwyllgor Pensiynau wedi mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi (DSB) ym mis Mawrth 2017 yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Roedd y DSB yn disodli'r Datganiad Buddsoddiadau Egwyddorion (DBE).

## 2. BUDDSODDIADAU CYFRIFOL

Yn dilyn sesiwn gyda'r ymgynghorwyr ynglŷn Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACL) ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn, trafododd y Panel Buddsoddi papur gan Hymans Robertson ar egwyddorion buddsoddi.

Roedd y Pwyllgor a'r Bwrdd yn cytuno ar yr egwyddorion dilynol sydd wedi cael eu cynnwys yn yr DSB yn **Atodiad A**.

2.1 Yn unol â dyletswydd ymddiriedol y Pwyllgor, dylai ystyriaethau ariannol gario mwy o bwysau nac ystyriaethau anariannol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, er gall faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ('ESG') gael effaith materol ar risg a dychweliadau. Felly, dylai ffactorau 'ESG' gael eu mewnblannu yn y prosesau buddsoddi a phrosesau penderfynu'r rheolwyr penodwyd gan y Gronfa.

2.2 Bydd Pwyllgor y Gronfa yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi o fewn ardal Cymru pan fydd buddiannau anariannol yn gallu deillio o hynny, yn amodol ar fodloni gofynion y ddyletswydd ymddiriedol.

2.3 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod ganddynt ddyletswydd i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Disgwylir y bydd ymgysylltu gyda chwmnïau, yn hytrach na pheidio buddsoddi, yn fwy effeithiol i newid ymddygiad corfforaethol a lleihau risg. Lle'n bosib, mae gweithrediad cydweithredol yn cynnig y ffordd fwyaf llwyddiannus er mwyn dylanwadu ar allbynnau.

2.4 Fel buddsoddwr hirdymor, mae'r Gronfa yn agored i risgiau systematig megis newid yn yr hinsawdd a'r disgwyliad i drawsnewid i economi carbon-isel. Gellir gwella deilliannau ariannol wrth reoli pa mor agored i risgiau o'r fath y mae'r Gronfa.

2.5 Gellid gwella dealltwriaeth rhanddeiliad a gwella deilliannau trwy ddatgelu ar hyd pob cam o'r gadwyn ychwanegu gwerth.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Buddsoddiadau arfaethedig sydd ynghlwm yn Atodiad A.

**ATODIAD A**

# Datganiad Strategaeth Fuddsoddi

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Dyma Ddatganiad Strategaeth Fuddsoddi ("ISS") Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa"), a weinyddir gan Gyngor Gwynedd ("yr Awdurdod Gweinyddu"). Mae'r ISS yn cael ei lunio yn unol â Rheoliad 7 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ("y Rheoliadau").

Darparwyd yr ISS gan Bwyllgor Pensiynau'r Gronfa ("y Pwyllgor") yn dilyn derbyn cyngor gan ymgynghorydd buddsoddi'r Gronfa, Hymans Robertson LLP. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu ar awdurdod dirprwyedig yr Awdurdod Gweinyddu.

Mae'r ISS, a gymeradwyir gan y Pwyllgor ar 16 Mawrth 2017, yn destun adolygiad cyfnodol o leiaf bob tair blynedd ac ar unwaith yn dilyn unrhyw newid sylweddol mewn polisi buddsoddi. Mae'r Pwyllgor wedi ymgynghori ar gynnwys strategaeth fuddsoddi'r Gronfa gyda'r personau y mae'n eu hystyried yn briodol.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio buddsoddi unrhyw arian yn y Gronfa nad oes ei angen ar unwaith i wneud taliadau o'r Gronfa, yn unol â'r ISS. Dylid darllen yr ISS ar y cyd â Datganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa (sydd yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).

## 2. Addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau

Prif amcan y Gronfa yw darparu buddion pensiwn a lwmp swm i aelodau pan fyddant yn ymddeol ac/neu fuddion marwolaeth, cyn neu'n dilyn ymddeoliad, ar gyfer eu dibynyddion, ar sail buddion diffiniedig. Adolygir y sefyllfa gyllido yn ystod pob prisiad actwaraidd a gynhelir bob tair blynedd, neu'n fwy aml fel bo'r angen.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio cyllido'r Gronfa yn y fath fodd, mewn amgylchiadau marchnad arferol, fel bo'r holl fuddion a gronnir yn cael eu cyfrif yn llawn gan werth asedau'r Gronfa ac y deuir i gytundeb ar lefel cyfraniadau priodol gan y cyflogwr i gwrdd â chostau'r buddion sy'n cronni i'r dyfodol. I aelodau sy'n weithwyr, bydd buddion yn seiliedig ar y gwasanaeth a gwblhawyd ond bydd hefyd yn ystyried codiadau cyflog yn y dyfodol ac/neu chwyddiant.

Mae'r Pwyllgor wedi cyfieithu ei amcanion i feincnod dyrannu asedau strategol addas ar gyfer y Gronfa. Mae'r meincnod hwn yn cyd-fynd â barn y Pwyllgor ar y cydbwysedd priodol rhwng cynhyrchu enillion hirdymor boddhaol ar fuddsoddiadau ac ystyried anweddolrwydd y farchnad a risg a natur ymrwymiadau'r Gronfa ar yr un pryd.

Bwriedir i strategaeth fuddsoddi'r Gronfa gael ei hadolygu o leiaf unwaith bob tair blynedd yn dilyn prisiad actwaraidd y Gronfa. Dyma sut mae'r Gronfa'n mynd ati i osod strategaeth fuddsoddi addas:

Mae'r gronfa wedi ymgymryd ymarfer modeli ased rhwymedigaethau fel rhan o'r prisiad actiwaraidd 2016. Modelwyd nifer o wahanol strategaethau cyfraniadau a buddsoddiadau ac ystyriwyd esblygiad y Gronfa yn y dyfodol o dan amrediad eang o senarios gwahanol. Mae'r Pwyllgor wedi gosod targed i gael siawns o leiaf 67% i gyrraedd eu targed cyllido tymor hir - yn dod yn ôl i sefyllfa wedi cyllido'n llawn o fewn

y 20 blynedd nesaf. Maent wedi ystyried y risg o beidio cyrraedd y targed yn y strategaethau amrywiol wrth adnabod y lefelau cyllido isel y gellir ymddangos os byddai canlyniadau gwael.

Mae'r dull hwn yn gymorth i sicrhau fod y strategaeth fuddsoddi'n rhoi ystyriaeth ddilys i broffil aeddfedrwydd y Gronfa (o ran y cyfrannau perthnasol o ymrwymiadau o ran pensiynwyr, aelodau gohiriedig a gweithredol), ynghyd â lefel y gwarged neu'r diffyg (perthnasol i'r sail gyllido a ddefnyddiwyd).

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn monitro'r strategaeth fuddsoddi'n barhaus, gan ganolbwyntio ar ffactorau yn cynnwys, ond nad ydynt yn gyfyngedig i:

- Addasrwydd o ystyried lefel cyllido'r Gronfa a'r proffil ymrwymiadau
- Lefel y risg ddisgwyliedig
- Rhagolygon ar gyfer enillion ar asedau

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn monitro dyraniad actwaraidd y Gronfa'n rheolaidd i sicrhau nad ydyw'n gwyro'n amlwg oddi wrth y dyraniad targed.

Roedd y dychweliadau asedau tymor hir fesul dosbarth sydd wedi eu tybio ar gyfer yr ymarfer modeli fel a ganlyn:

| Dosbarth Asedau | Dychweliad Canolrif a Disgwylir 10 mlynedd (%yf) | Dychweliad Canolrif a Disgwylir 20 mlynedd (%yf) |
|---|---|---|
| Ecwiti'r DU | 5.0 | 5.9 |
| Ecwiti Tramor | 4.6 | 5.6 |
| Ecwiti Preifat | 5.9 | 7.0 |
| Eiddo'r DU | 2.8 | 3.7 |
| Bondiau Dychweliad Absoliwt | 2.6 | 3.6 |

## 3. Buddsoddi arian mewn amrediad o fuddsoddiadau

### Dosbarthiadau o asedau

Gall y Gronfa fuddsoddi mewn buddsoddiadau a ddyfynnwyd a rhai na ddyfynnwyd ym marchnadoedd y DU a thramor, yn cynnwys ecwiti, bondiau llog sefydlog a bondiau llog sy'n gysylltiedig â'r farchnad, arian parod, eiddo a phrif nwyddau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy bŵlio arian. Yn ogystal, gall y Gronfa ddefnyddio contractau ar gyfer gwahaniaethau neu ddeilliadau eraill yn uniongyrchol neu drwy bŵlio arian i fuddsoddi yn y cynnyrch hwn, er diben rheoli portffolio yn effeithlon neu gyfyngu ar risgiau penodol.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu natur buddsoddiadau'r Gronfa yn rheolaidd, gan gyfeirio'n benodol at addasrwydd ac amrywiaeth. Mae’r Pwyllgor yn ceisio ac yn ystyried cyngor ysgrifenedig gan berson sydd wedi cymhwyso'n addas i gynnal adolygiad o'r fath. Os, ar unrhyw adeg, y cynigir buddsoddiad mewn buddsoddiad neu gynnyrch nad ydyw'n wybodus i'r Pwyllgor, ceisir cyngor priodol ac fe'i hystyrir er mwyn sicrhau ei addasrwydd a'i amrywiaeth.

Gweler isod strategaeth fuddsoddi targed y Gronfa. Yn unol â'r Rheoliadau, nid yw strategaeth fuddsoddi'r awdurdod yn caniatáu i fwy na 5% o gyfanswm gwerth holl fuddsoddiadau arian y gronfa i gael eu buddsoddi mewn endidau sy'n gysylltiedig â'r awdurdod hwnnw yn unol ag ystyr adran 212 Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd Mewn Iechyd 2007".

**Tabl 1: Dyraniad y Gronfa**

| Dosbarth ased | Dyraniad targed % |
|---|---|
| Ecwiti'r DU | 19.5 |
| Ecwiti tramor | 53.0 |
| Cyfanswm ecwiti | 72.5 |
| Eiddo | 10.0 |
| Bondiau | 15.0 |
| Isadeiladwaith | 2.5 |
| Cyfanswm | 100.0 |

**Rheolwyr**

Mae'r Pwyllgor wedi penodi nifer o reolwyr buddsoddi ac mae pob un ohonynt wedi'u hawdurdodi dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i ymgymryd â busnes buddsoddi.

Mae'r Pwyllgor, wedi cael cyngor priodol ar fuddsoddi, wedi cytuno ar feincnodau penodol â phob rheolwr er mwyn, ar gyfanred, iddynt fod yn gyson â'r dyraniad asedau cyffredinol ar gyfer y Gronfa. Bydd rheolwyr buddsoddi'r Gronfa yn dal cymysgedd o fuddsoddiadau sy'n adlewyrchu eu barn mewn perthynas â'u meincnodau perthnasol. O fewn pob marchnad fawr a dosbarth ased, bydd y rheolwyr yn cynnal portffolios amrywiol drwy fuddsoddi'n uniongyrchol neu fel rhan o bŵl. Bydd rheolwyr y cronfeydd goddefol y mae'r Gronfa'n buddsoddi ynddi yn dal cymysgedd o fuddsoddiadau o fewn pob cronfa sydd wedi'i phŵlio sy'n adlewyrchu eu meincnodau perthnasol.

## 4. Y dull o ymdrin â risg, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu mesur a'u rheoli

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fod angen i'r Gronfa gymryd risgiau (e.e. buddsoddi mewn asedau twf) i'w gynorthwyo i gyflawni ei amcanion cyllido. Mae ganddo raglen rheoli risg weithredol yn ei lle sy'n ceisio'i gynorthwyo i adnabod y risgiau sy'n cael eu cymryd ac yn rhoi prosesau yn eu lle i reoli, mesur, monitro a (ble bo modd) lliniaru'r risgiau sy'n cael eu cymryd. Mae'r Pwyllgor yn grediniol nad oes arno angen cymryd mwy o risg fuddsoddi nag sydd angen.

Mae'r prif risgiau sy'n effeithio ar y Gronfa wedi'u nodi isod; rydym hefyd yn trafod dull y Gronfa o reoli'r risgiau hyn a'r cynlluniau argyfwng sydd yn eu lle:

**Risgiau ariannu**

- Camgymheiriad Ariannol - Y risg y bydd asedau'r Gronfa'n methu â thyfu'n unol â'r gost ddatblygol o gwrdd â'r ymrwymiadau.

- Newid demograffig - Y risg fod hirhoedledd yn gwella a bod ffactorau demograffig eraill yn newid, gan gynyddu cost buddion y Gronfa.

- Risg systemig - Y posibilrwydd o fethiant cysylltiedig ar yr un pryd o sawl dosbarth ased ac/neu reolwyr buddsoddi, o bosib wedi'u llesteirio gan '*contagion'* ariannol, gan arwain at gynnydd yn y gost o fodloni ymrwymiadau'r Gronfa.

Mae'r Pwyllgor yn mesur ac yn rheoli camgymhariad ariannol mewn dwy ffordd. Fel y nodwyd uchod, mae'r Pwyllgor wedi gosod meincnod dyrannu asedau strategol ar gyfer y Gronfa. Gosodwyd y meincnod hwn gan roi ystyriaeth i fodelu ymrwymiadau ased oedd yn canolbwyntio ar y tebygolrwydd o lwyddiant a lefel y risg anfanteisiol. Dengys canlyniadau dadansoddiad 2016 fod gan y Gronfa debygolrwydd o 77% y bydd yn cyflawni cronfa sydd wedi'i hariannu'n llawn dros y cyfnod i 2037 a mesur risg is yn unol â lefel cyllido o 38% ar y dyddiad yna yn gyfartalog y 5% alldodau gwaetha . Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei ailymweld fel rhan o broses brisio 2016. Mae'r Pwyllgor yn asesu risg sy'n berthnasol i'r meincnod strategol drwy fonitro dyraniad asedau'r Gronfa ac enillion ar fuddsoddiadau sy'n gymharol i'r meincnod. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn asesu risg sy'n gymharol i'r ymrwymiadau drwy fonitro cyflawniad enillion meincnod sy'n gymharol i'r ymrwymiadau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ceisio deall y tybiaethau a ddefnyddiwyd mewn unrhyw ddadansoddiad a modelu fel y gellir eu cymharu â'u barn eu hunain a lefel y risgiau sy'n gysylltiedig â'r tybiaethau hyn sydd i'w hasesu.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio lliniaru risg systemig drwy gael portffolio amrywiol ond nid yw'n bosib gwneud darpariaeth benodol ar gyfer pob sefyllfa allai godi dan y pennawd hwn.

**Risgiau ased**

- Crynhoad - Y risg y gallai dyraniad sylweddol i unrhyw gategori ased unigol a'i danberfformiad cymharol i'r disgwyliad arwain at anawsterau o ran cyflawni amcanion ariannu.
- Anhylifedd - Y risg na all y Gronfa gwrdd â'i ymrwymiadau ar hyn o bryd gan nad oes ganddo ddigon o asedau hylifol.
- Risg Arian Cyfred (*currency*) - Y risg fod arian cyfred asedau'r Gronfa'n tanberfformio o gymharu â Sterling (h.y. arian cyfred yr ymrwymiadau).
- Amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ("ESG") - Y risg fod ffactorau ESG yn lleihau gallu'r Gronfa i gynhyrchu'r enillion hirdymor.
- Tanberfformiad y rheolwr - Methiant rheolwyr y gronfa i gyflawni'r raddfa enillion ar fuddsoddiadau a dybiwyd wrth osod eu mandadau.

Mae'r Pwyllgor yn mesur ac yn rheoli risgiau asedau fel a ganlyn.

Mae meincnod dyrannu asedau strategol y Gronfa'n buddsoddi mewn amrediad amrywiol o ddosbarthiadau ased. Mae'r Pwyllgor wedi rhoi trefniadau ail-gydbwyso yn eu lle er mwyn sicrhau nad yw "gwir ddyraniad" y Gronfa'n tynnu'n sylweddol oddi ar ei darged. Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn amrediad o fandadau buddsoddi; pob un ag amcan, meincnod perfformi a phroses reoli ddiffiniedig, sydd, mewn cyfanred, yn cynorthwyo i leihau risg grynhoi asedau'r Gronfa. Drwy fuddsoddi ar draws amrediad o asedau, yn cynnwys ecwiti a bondiau hylifol wedi'u dyfynnu, ynghyd ag eiddo, mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen i gael mynediad i hylifedd yn y tymor byr.

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn amrediad o farchnadoedd tramor sy'n darparu dull amrywiol o ymdrin â'r marchnadoedd arian cyfred; mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu risg arian cyfred y Gronfa yn cynnwys eu dadansoddiad risg. Mae manylion dull y Gronfa o ymdrin â risgiau ESG wedi'i nodi yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y risg o danberfformiad gan unrhyw reolwr buddsoddi sengl ac wedi ceisio lleihau'r risg yma drwy benodi mwy nag un rheolwr a chael cyfran arwyddocaol o asedau'r Cynllun i gael eu rheoli ar sail oddefol. Mae'r Pwyllgor yn asesu perfformiad rheolwyr y Gronfa yn rheolaidd, a bydd yn cymryd camau, yn cynnwys amnewid un neu fwy o'u rheolwyr, os bydd y tanberfformiad yn parhau.

**Risgiau darparwyr eraill**

- Risg trosglwyddo - Y risg o fynd i gostau annisgwyl mewn perthynas â throsglwyddo asedau ymysg rheolwyr. Wrth ymgymryd â throsglwyddiadau arwyddocaol, mae'r Pwyllgor yn ceisio cyngor proffesiynol addas.

- Risg ceidwad - y risg o golli hawliau economaidd i asedau'r Gronfa, pan fônt yn cael eu dal gan geidwad neu wrth iddynt gael eu masnachu.

- Diffygdalu credyd - y posibilrwydd o wrthbarti yn methu â bodloni ei oblygiadau.

- Benthyca stoc - Y posibilrwydd o ddiffygdalu a cholli hawliau economaidd i asedau'r Gronfa.

Mae'r Pwyllgor yn monitro ac yn rheoli risgiau yn yr ardaloedd hyn drwy broses o graffu ei ddarparwyr yn rheolaidd, ac archwilio'r gweithrediadau mae'n eu gwneud ar gyfer y Gronfa, neu wedi dirprwyo'r fath fonitro a rheoli risg i'r rheolwyr buddsoddi a benodwyd fel sy'n briodol (e.e. risg ceidwad mewn perthynas â chronfeydd wedi'u pŵlio). Mae gan y Pwyllgor bŵer i amnewid darparwr os bydd ganddo bryderon difrifol.

Mae atodlen ar wahân o risgiau mae'r Gronfa'n eu monitro wedi'u nodi yn Natganiad Strategaeth Gyllido'r Gronfa.

## 5. Y dull o ymdrin â buddsoddiadau wedi'u pŵlio, yn cynnwys y defnydd o gerbydau buddsoddi cyfunol a gwasanaethau a rennir

Mae'r Gronfa yn gynllun sy'n cymryd rhan ym Mhŵl CYMRU. Nodwyd y strwythur arfaethedig a'r sail y bydd Pŵl CYMRU yn gweithredu ynddi yn y cyflwyniad a roddwyd i'r Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2016.

**Asedau i'w buddsoddi yn y Pŵl**

Bwriad y Gronfa yw buddsoddi ei asedau drwy Bŵl CYMRU pan a phryd y daw datrysiadau buddsoddi'r Gronfa ar gael. Nodwyd amserlen ddangosol ar gyfer buddsoddi drwy'r Pŵl yn y cyflwyniad a roddwyd i'r Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2016. Bydd y meini prawf allweddol ar gyfer asesu datrysiadau'r Pŵl fel a ganlyn:

1 Fod y Pŵl yn galluogi mynediad at ddatrysiad priodol sy'n bodloni'r amcanion a'r meini prawf meincnod a osodwyd gan y Gronfa.

2 Fod budd ariannol clir i'r Gronfa fuddsoddi yn y datrysiad a gynigir gan y Pŵl, pe byddai angen newid darparwr.

Ar adeg paratoi'r datganiad hwn, mae'r Gronfa wedi buddsoddi'n barod yn yr asedau a ganlyn drwy Bŵl CYMRU:

| Dosbarth ased | Rheolwr | % asedau'r Gronfa | Meincnod ac amcan perfformiad |
|---|---|---|---|
| Ecwiti Goddefol | BlackRock | 22.5 | FTSE All-Share a’r FTSE All-World Indices<br><br>Elw’r Meincnod |


Ar adeg paratoi'r datganiad hwn, mae'r Gronfa wedi dewis i beidio buddsoddi’r asedau a ganlyn drwy Bŵl CYMRU:

| Dosbarth ased | Rheolwr | % asedau'r Gronfa | Meincnod ac amcanion perfformiad | Y rheswm am beidio â buddsoddi drwy Bŵl CYMRU |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti Preifat | Partners | 5.0 | MSCI World Meincnod + 5% y flwyddyn | Ymrwymiadau cytundebol cyfredol sydd â bywyd terfynedig |
| Isadeiladwaith | Partners | 2.5 | MSCI World Meincnod + 5% y flwyddyn | Ymrwymiadau cytundebol cyfredol sydd â bywyd terfynedig |

Adolygir unrhyw asedau nad ydynt yn cael eu buddsoddi yn y Pŵl ar hyn o bryd bob tair blynedd fan leiaf er mwyn penderfynu p'un a yw'r rhesymeg yn parhau'n briodol, a p'un ai yw'n parhau i arddangos gwerth am arian.  Ni fydd yr adolygiad nesaf o'r fath yn digwydd ddim hwyrach na 2020.

**Strwythur a llywodraethu Pŵl CYMRU**

Bydd y Pŵl yn penodi gweithredwr trydydd parti a awdurdodir gan y FCA i ddarparu cyfres o is-gronfeydd buddsoddi ac fe fuddsoddir asedau'r cronfeydd sy'n cymryd rhan ynddynt.




Sefydlir Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl) i oruchwylio'r gweithredwr.  Bydd y Pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig - un o bob un o'r cronfeydd sy'n cymryd rhan.  Rhagwelir mai Cadeiryddion y Pwyllgorau Pensiynau fydd y bobl debygol i wasanaethu ar y pwyllgor, er y gallai awdurdodau gweinyddu ddewis enwebu aelodau amgen os yw hynny'n briodol.  Bydd y trefniant hwn yn rhoi atebolrwydd i'r gweithredwr yn ôl i awdurdodau gweinyddu unigol.

Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu'n cael ei sefydlu'n ffurfiol fel Cydbwyllgor rhwng yr awdurdodau gweinyddu sy'n cymryd rhan.  Bydd gan bob cronfa un aelod etholedig ar y Pwyllgor. Bydd yn gweithredu ar sail 'Un Gronfa, Un Bleidlais', er mai'r bwriad fydd dod i gonsensws ar unrhyw benderfyniadau, ble bynnag y bo modd.  Bydd Cylch Gorchwyl ffurfiol yn cael ei lunio ar gyfer y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau, ble bo modd, fod amrediad priodol o is-gronfeydd ar gael er mwyn i awdurdodau gweinyddu weithredu dyraniadau ased o'u dewis eu hunain.  Bydd y CLl mewn trafodaethau rheolaidd â'r gweithredwr ynghylch yr is-gronfeydd penodol ddylid eu sefydlu o fewn y Pŵl, ar y dechrau ac yn barhaus.

Bydd swyddogion o bob awdurdod gweinyddu'n mynychu cyfarfodydd y CLl (ni fydd ganddynt bleidlais). Mae'r swyddogion yn cydweithio'n barod fel Is-grŵp Pensiynau'r SWT (*Society of Welsh Treasurers*). Bydd cylch gorchwyl terfynol y grŵp swyddogion hwn yn cael ei adolygu yn sgil y trefniadau pŵlio newydd. Bydd y swyddogion yn cynghori'r CLl ar y gwaith o sefydlu a monitro'r is-gronfeydd amrywiol ynghyd â chysylltu'n uniongyrchol â'r gweithredwr ar unrhyw faterion buddsoddi dydd i ddydd.

Yn y lle cyntaf, disgwylir i gynrychiolwyr y gronfa ar y CLl adrodd yn ôl i bwyllgorau pensiwn eu cronfeydd unigol a byddant hwy'n gyfrifol am fodloni eu hunain ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau pŵlio cyffredinol a gweithrediad y CLl. Fodd bynnag, gallai Pwyllgorau Pensiynau lleol hefyd geisio sicrwydd ar agweddau o reoli buddsoddiadau'r gronfa.

Yn ogystal, bydd y FCA yn ymgymryd â chaffael allanol a diwydrwydd dyledus y gweithredwr a'r ceidwad yn ei rôl fel rheoleiddiwr.

Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am ddewis a mynd i gytundeb â rheolwyr buddsoddi ar gyfer pob un o'r is-gronfeydd ac am benodi darparwyr gwasanaeth eraill megis gwasanaethwr asedau i geidwaid, ac fel prisiwr allanol fel bo'r angen.

Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld fod y bondiau a'r ecwiti sydd wedi'u rhestru yn debygol o gael eu buddsoddi drwy Gynllun Cytundebu Awdurdodedig (ACS) yn seiliedig yn y DU er mwyn elwa o natur tryloywder treth y cerbyd, er y byddwn yn trafod y mater hwn gyda'r gweithredwr sydd wedi'i benodi. Efallai y bydd cerbydau amgen yn fwy priodol ar gyfer rhai dosbarthiadau ased eraill. Ynghyd ag ystyried yr opsiynau gyda'r gweithredwr, byddwn hefyd yn cymryd cyngor allanol ar y dull arfaethedig terfynol ar sail effeithiolrwydd treth a chydymffurfiaeth â'r gyfraith.

Dan y strwythur arfaethedig, y ceidwad fydd yn dal y teitl cyfreithiol i asedau'r Pŵl. Y gweithredwr fydd yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r Pŵl, gan gynnwys ymrwymo i gytundebau cyfreithiol â'r rheolwyr buddsoddi.

Bydd y gweithredwr a benodir yn darparu ac yn gweithredu amrediad o gerbydau buddsoddi i ganiatáu buddsoddiad cyfunol gan y cronfeydd sy'n cymryd rhan.

Bydd y gweithredwr yn gyfrifol am ddewis a chytundebu â rheolwyr buddsoddi ar gyfer rheoli'r asedau gwaelodol. Yn ogystal, byddant yn gyfrifol am weinyddu mewn perthynas â'r cerbydau o ran prisio unedau, prisiad, ymdrin â llif arian i mewn ac allan o'r amrywiol is-gronfeydd, prosesu masnach ac adrodd ar berfformiad.

Byddant yn gyfrifol am ddiwydrwydd dyladwy o safbwynt archwilio, cyfreithiol a threth ar gyfer yr is-gronfeydd perthnasol a hefyd am ethol ceidwad i'r Pŵl.

Yn ogystal, bydd y Pŵl yn caffael cyngor cyfreithiol a threthiant allanol fel bo'r angen er mwyn eu cefnogi yn eu perthynas â'r gweithredwr.

## 6. Sut mae ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol neu lywodraethu corfforaethol yn derbyn sylw wrth ddewis, peidio â dewis, cadw a gwireddu buddsoddiadau

Yn unol â dyletswydd ymddiriedol y Pwyllgor, dylai ystyriaethau ariannol gario mwy bwysau nac ystyriaethau anariannol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, er gall faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (‘ESG’) gael effaith materol ar risg a dychweliadau. Felly, dylai ffactorau ‘ESG’ gael eu mewnblannu yn y prosesau buddsoddi a phrosesau penderfynu’r rheolwyr penodwyd gan y Gronfa.

Bydd Pwyllgor y Gronfa yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi o fewn ardal Cymru pan fydd buddiannau anariannol yn gallu deillio o hynny, yn amodol ar fodloni gofynion y ddyletswydd ymddiriedol.

Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod ganddynt ddyletswydd i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Disgwylir y bydd ymgysylltu gyda chwmnïau, yn hytrach na pheidio buddsoddi, yn fwy effeithiol i newid ymddygiad corfforaethol a lleihau risg. Lle’n bosib, mae gweithrediad cydweithredol yn cynnig y ffordd fwyaf llwyddiannus er mwyn dylanwadu ar allbynnau.

Fel buddsoddwr hirdymor, mae’r Gronfa yn agored i risgiau systematig megis newid yn yr hinsawdd a’r disgwyliad i drawsnewid i economi carbon-isel. Gellir gwella deilliannau ariannol wrth reoli pa mor agored i risgiau o’r fath y mae’r Gronfa.

Gellid gwella dealltwriaeth rhanddeiliad a gwella deilliannau trwy ddatgelu ar hyd pob cam o’r gadwyn ychwanegu gwerth.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **8 TACHWEDD 2018** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2018/19 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

---

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.

---

## 1. CEFNDIR

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau yn adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad hon yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor  ar gyfer 2018/19 gan y Cyngor llawn ar 8 Mawrth 2018, a gellir ei weld ar y we yn https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s16299/Rheolaeth%20Trysorlys%20-%20Atodiad%20A.pdf?LLL=1

Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i'r strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

Mae'r Cod Darbodus sydd wedi'i ddiweddaru yn cynnwys gofyniad newydd i awdurdodau lleol ddarparu Strategaeth Cyfalaf, sef dogfen grynodeb wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn yn trafod gwariant ac arian cyfalaf, rheolaeth trysorlys a buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgaredd y trysorlys a'r monitro risg a rheolaeth risg cysylltiedig. Bydd y Cyngor yn cynhyrchu ei Strategaeth Cyfalaf yn ddiweddarach yn 2018-19 i'w chymeradwyo gan y Cyngor llawn.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru (LIC) am sylwadau ar newidiadau i'w Chanllaw ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP). Mae'r rhain yn cynnwys eglurhad o'r newidiadau i derminoleg a chyfrifo'r MRP.

## 2. Y CEFNDIR ECONOMAIDD

**Y Cefndir Economaidd**: Cynyddodd prisiau olew 23% yn ystod y chwe mis i tua $82/casgen. Cynyddodd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar gyfer mis Awst i 2.7% blwyddyn/blwyddyn, yn uwch na'r rhagolygon consenswS a rhagolygon Banc Lloegr yn ei *Adroddiad Chwyddiant* ar gyfer mis Awst, wrth i effeithiau dibrisiant mawr y bunt yn 2016 ddechrau pylu. Dangosodd y data marchnad lafur diweddaraf ar gyfer Gorffennaf 2018 y gyfradd ddiweithdra ar 4%, yr isaf ers 1975. Y gyfradd twf blynyddol gyfartalog 3 mis ar gyfer cyflog arferol h.y. ac eithrio bonws, oedd 2.9% sy'n rhoi peth tystiolaeth bod prinder gweithwyr yn cefnogi cyflogau. Fodd bynnag, ni wnaeth cyflogau gwirioneddol (h.y. wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant) ond tyfu 0.2%, cynnydd ymylol sy'n annhebygol o fod wedi cael fawr o effaith ar aelwydydd.

Ymddengys bod yr adlam mewn twf GDP chwarterol yn Ch2 i 0.4% wedi gwyrdroi'r gwendid yn Ch1 a oedd yn bennaf yn sgil ffactorau'n ymwneud â'r tywydd. Fodd bynnag, dangosodd y manylion bod llawer o dwf GDP Ch2 yn sgil cynnydd mewn stoc. Mae'r twf GDP blwyddyn/blwyddyn o 1.2% hefyd yn is na'r duedd. Ni wnaeth Banc Lloegr unrhyw newidiadau i'w bolisi ariannol yn ei gyfarfodydd ym mis Mai na Mehefin, fodd bynnag, dilynwyd pleidlais 6-3 a chofnodion i gynnal y cyfraddau gan benderfyniad unfrydol am gynnydd yn y gyfradd o 0.25% ym mis Awst, gan olygu bod Cyfradd y Banc yn 0.75%.

Wedi codi'r cyfraddau ym mis Mawrth, cynyddodd Cronfa Ffederal yr UD ei ystod targed o gyfraddau llog swyddogol eto ym mis Mehefin a mis Medi 0.25% i'r 2%-2.25% cyfredol. Bellach, mae'r marchnadoedd yn disgwyl un cynnydd pellach yn 2018.

Ymddengys bod y rhyfel fasnach gynyddol rhwng yr UD a Tsieina wrth i dollau gael eu cyhoeddi gan weinyddiaeth Trump, fod yn anghydfod fawr, yn niweidiol i Tsieina ond hefyd i economïau Asiaidd eraill yn y gadwyn gyflenwi. Mae canlyniad hyn, ynghyd â pholisi ariannol tynnach, yn peryglu cyfrannu at arafu mewn gweithgaredd a thwf economaidd rhyngwladol yn 2019.

Aed â'r Mesur Gadael yr UE, sy'n diddymu Deddf Cymunedau Ewrop 1972 a aeth â'r DU i'r UE ac sy'n galluogi i gyfraith yr UE gael ei throsglwyddo yn gyfraith y DU, drwy'r Senedd. Gyda dim ond chwe mis ar ôl tan i Erthygl 50 ddod i ben ar 29 Mawrth 2019, nid yw'r Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE a fydd yn rhwymo mewn cyfraith materion gwahanu a'r setliad ariannol, na'i atodiad a fydd yn amlinellu siâp y berthynas yn y dyfodol, wedi'u cwblhau, sy'n ymestyn y cyfnod o ansicrwydd economaidd.

**Marchnadoedd ariannol:** Bu cynnyrch gilt yn gyfnewidiol iawn yn ystod y cyfnod, yn benodol yn dilyn argyfwng gwleidyddol yr Eidal ddiwedd mis Mai pan welwyd symudiadau mawr i gynnyrch bond y llywodraeth yn debyg i'r hyn a welwyd ar anterth argyfwng ariannol Ewrop gyda gostyngiadau mewn cynnyrch mewn bondiau llywodraeth hafan ddiogel y DU, yr Almaen a'r UD. Dros y cyfnod, er gwaetha'r cyfnod cyfnewidiol, roedd y newid bet mewn cynnyrch gilt yn fach. Cynnydd ymylol yn unig a fu i'r gilt meincnod 5 mlynedd, o 1.13% i 1.16%. Cafwyd cynnydd uwch mewn cynnyrch gilt 10 mlynedd o 1.37% i 1.57% ac yn y cynnyrch gilt 20 mlynedd o 1.74% i 1.90%. Fe arweiniodd y cynnydd yn y Gyfradd Banc at gyfraddau marchnadoedd ariannol uwch. Roedd cyfraddau LIBID 1 mis, 3 mis a 12 mis yn 0.56%, 0.707% a 0.95% ar gyfartaledd yn ôl eu trefn dros y cyfnod.

**Cefndir credyd:** Gan adlewyrchu'r canfyddiad o'i risg uwch, cynyddodd yr amrediad Cyfnewid Diffygdalu Credyd (CDS) ar gyfer banc nad oedd wedi'i glustnodi NatWest Markets plc yn gymharol llym dros y cyfnod i tua 96bps. Roedd y CDS ar gyfer yr endid sydd wedi'i glustnodi, National Westminster Bank plc, wedi aros yn gyson o dan 40bps. Er bod CDS banciau'r DU wedi cynyddu rhywfaint dros y cyfnod, maent yn parhau'n isel o gymharu â chyfartaleddau hanesyddol.

Mae clustnodi'r pedwar banc mawr yn y DU - Barclays, Bank of Scotland/Lloyds, HSBC a RBS/NatWest Bank plc - wedi'i gwblhau, mae trosglwyddo eu llinellau busnes i mewn i fanwerthu (wedi'i glustnodi) a banciau buddsoddi (heb ei glustnodi) yn bwrw ymlaen a bydd angen cwblhau hyn erbyn diwedd 2018.

Cafwyd ychydig o newidiadau i gyfraddau credyd yn ystod y cyfnod. Mae Moody's wedi gostwng cyfradd hirdymor Barclays Bank plc i A2 o A1 a NatWest Markets plc i Baa2 o A3 oherwydd ei farn ar fetrics credyd yr endidau ar ôl clustnodi. Roedd uwchraddiadau i gyfraddau hirdymor yn cynnwys y rhai ar gyfer Royal Bank of Scotland plc, NatWest Bank ac Ulster Bank i A2 o A3 gan Moody's ac i A- o BBB+ gan Fitch and Standard & Poor's (S&P) ill dau. Uwchraddiwyd Lloyds Bank plc a Bank of Scotland plc i A+ o A gan S&P ac i Aa3 o A1 gan Moody's.

O hyn ymlaen, bydd ein hymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose, yn darparu cyfraddiadau sy'n benodol i adneuon cyfanwerthol yn cynnwys tystysgrifau adneuo, yn hytrach na darparu cyfraddiadau credyd cyffredinol. Mae dyledion ansicredig nad ydynt yn cael eu ffafrio a bondiau uwch ar risg uwch o *'bail-in'* na chynnyrch adnau, naill ai drwy delerau cytundebol, cyfraith genedlaethol neu drwy hyblygrwydd yr awdurdodau penderfynu yn ystod *'bail-in'*. Bydd cyngor teilyngdod credyd Arlingclose yn parhau i gynnwys adneuon banc ansicredig a CDs ond nid bondiau ansicredig uwch a roddir gan fanciau masnachol.

## 3. GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

Mae'r Cyngor yn dal buddsoddiadau sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant, ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn.

Mae'r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

Mae'r Cyngor yn dal arian wedi ei buddsoddi sydd yn cynrychioli'r incwm a derbyniwyd o flaen y gwariant yn ogystal â balansau a chronfeydd. Yn ystod y 5 mis, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor yn amrywio rhwng £79.4 a £31.4 miliwn oherwydd gwahaniaethau amser rhwng incwm a gwariant. Dangosir y sefyllfa buddsoddi yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

| | 31.3.18 Balans £m | 6 mis Symudiad £m | 30.9.18 Balans £m |
|---|---|---|---|
| Banciau & cymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 11.1 | 3.8 | 14.9 |
| Bonds gorchuddiedig (sicr) | 2.1 | (1.0) | 1.1 |
| Llywodraeth (gan gynnys awdurdodau lleol) | 25.0 | (7.0) | 18.0 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 9.3 | (0.4) | 8.9 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **47.5** | **(4.6)** | **42.9** |

Mae Cod CIPFA a chanllaw y llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Diogelwch y cyfalaf sy'n parhau'n brif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi. Cynhaliwyd hyn drwy ddilyn polisi gwrthbartïon y Cyngor, sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2018/19.

Aseswyd ansawdd credyd y gwrthbartion a'i fonitro drwy gyfeirio at y statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartion a benwyd gan y Cyngor oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's); prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol.

**Adroddiad Perfformiad**

Mae'r Cyngor yn mesur y perfformiad cyllidol gweithgareddau rheolaeth trysorlys ar sail effaith ar y cyllideb refeniw yn erbyn meincnod cyfraddau llog, fel y dangosir yn y tabl isod.

| | Sgôr Risg | Statws Credyd | Datguddiad Mechniaeth | Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau) | Cyfradd Adennill % |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2018 | 3.96 | AA- | 43% | 48 | 0.55 |
| 30.06.2018 | 3.85 | AA- | 42% | 52 | 0.69 |
| 30.09.2018 | | | | | |
| **AL tebyg** | **5.78** | **A** | **58%** | **248** | **0.75** |
| **Bob AL** | **4.21** | **AA-** | **62%** | **42** | **0.65** |

Roedd buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys cyfrifon ar alw, adneuon cyfnod cyfradd sefydlog a thystysgrifau adneuon, cronfeydd marchnad wedi'u cyfuno a bondiau gorchuddiedig.

£48.7m oedd y balans cyfartaledd arian yn ystod y chwech mis. Yn dilyn cyfradd Banc y DU ar 0.25% ers August 2016 cododd y cyfradd i 0.5% ym  mis Hydref 2017 ac cododd eto ym mis Gorffennaf 2018 i 0.75%.

£0.17m yw'r cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar allbwn buddsoddi o 0.5% ar gyfer y flwyddyn gyfan.

**Adroddiad Cydymffurfio**

Gallaf gadarnhau cydymffurfiaeth â'r Dangosyddion Darbodus am 2018/19, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2018 fel rhan o Ddatganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

## 4. Hyfforddiant Buddsoddi

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA oedd yn berthnasol i'w swyddi.

## 5. Rhagolygon ar gyfer Gweddill 2018/19

Wedi codi cyfraddau polisi ym mis Awst 2018 i 0.75% mae Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) wedi cynnal disgwyliadau o gynnydd araf mewn cyfraddau llog dros y gorwel a ragwelir.

Mae gan yr MPC duedd bendant tuag at bolisi ariannol tynnach ond mae'n gyndyn o wthio disgwyliadau cyfraddau llog yn rhy gryf. Er bod y sawl sy'n ffurfio polisïau yn wyliadwrus o bwysau chwyddiannol domestig dros y ddwy flynedd nesaf, credir bod aelodau'r MPC yn ystyried bod (a) cyfraddau llog isel iawn yn arwain at broblemau economaidd a (b) bod Cyfradd Banc uwch yn arf fwy effeithiol pe byddai risgiau negyddol Brexit yn cael eu crisialu a bod angen gwneud toriadau.

Achos canolog Arlingclose yw y bydd Cyfradd Banc yn cynyddu ddwywaith yn 2019. Mae risgiau'n parhau ar yr ochr negyddol. Mae amgylchedd economi'r DU yn gymharol feddal, er gwaethaf data marchnad lafur sy'n ymddangos yn gryf. Adferwyd twf GDP rhywfaint yn Ch2 2018, ond mae'r gyfradd twf flynyddol o 1.2% yn parhau'n llawer is na'r cyfartaledd hirdymor.

| | Sep-18 | Dec-18 | Mar-19 | Jun-19 | Sep-19 | Dec-19 | Mar-20 | Jun-20 | Sep-20 | Dec-20 | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 |
| Arlingclose Central Ca | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 | 1.25 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |

Y farn yw bod economi'r DU yn parhau i wynebu rhagolygon heriol wrth i'r llywodraeth leiafrifol barhau i drafod gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae gweithredoedd y banc canolog a risgiau geo-wleidyddol, megis rhyfeloedd masnach posib, wedi golygu amodau cyfnewidiol iawn yn y marchnadoedd ariannol, yn cynnwys y marchnadoedd bond, a byddant yn parhau i wneud hynny.

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **8 Tachwedd 2018** |
| **TEITL** | **Cysoni IPG (Isafswm Pensiwn Gwarantedig)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Diweddaru'r Pwyllgor am y gwaith cysoni fel mae'r broses yn dod i ben** |
| **AWDUR** | **Nicholas Hopkins – Rheolwr Pensiynau** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Er gwybodaeth yn unig** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Fel ŵyr aelodau'r Pwyllgor sefydlwyd tîm tri pherson yn Ionawr 2016 i ddelio â chysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig. Cyflwynwyd adroddiadau i'w diweddaru i gyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016 a 2017.

**2. DIWEDDARIAD**

2.1 Llwyddodd aelod dros dro'r tîm (penodwyd o Fehefin 2016) i gael swydd barhaol o ddiwedd Gorffennaf 2018. Gan fod rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i wneud, a'r ymholiadau wedi'u hanfon i CThEM, penderfynwyd am yr amser byr roedd yn weddill, i beidio chwilio am olynydd.

2.2 Yn Hydref 2018, roedd disgwyl ateb gan CThEM i 134 ymholiad. Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd (CBG) yn dal bod 30 o rhain 'ddim yn y cynllun' gan fod ad-daliadau wedi' gwneud, ac felly ni ddylid cael IPG yn y Gronfa. Mewn achosion o'r fath byddai Premiwm Cyfwerth Cyfraniad yn daladwy i CThEM. Mae CBG yn honni fod y taliadu hyn eisoes wedi eu gwneud ac felly yn herio CThEM am y ffeithiau.

2.3 O bryder arbennig yw'r rhai lle mae CBG a CThEM yn anghytuno ynglŷn â'u sefyllfa contractio allan. Cyfeirir at rain fel 'stalemate cases' a all amrywio o fuddion (yn cynnwys IPG) a drosglwyddwyd i gynlluniau eraill, ond lle mae CThEM yn haeru i CBG fod yn berchen a'r rhwymedigaethau, i ddibynyddion mae CBG yn talu IPG gweddwon ond bod CThEM yn haeru nid oes hawliau gweddwon.

2.4 Mae gan CBG 119 o weddon a ddynodir fel achosion *'stalemate'*. Er fod CBG wedi cadarnhau hawliau o dan y rheoliadau pensiwn drwy ddwbl wirio yn erbyn tystysgrifau priodi a geni, mae CThEM yn parhau i haeru bod dim hawliau.

2.5 Mae'r matter *'stalemate'* wedi ei godi ar lefel Llywodraeth San Steffan gyda'r Weinyddiaeth Tai, Llywodraeth Leol a Chymuned (MHCLG), a hwythau wedyn gyda'r Trysorlys. Roedd llythyr dyddiedig 25 Medi 2018 oddi wrth Paul Kirk (Pennaeth Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Trysorlys) i Sophie Broadfield (Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol) yn datgan bod rhaid i faterion o'r fath gael eu datrys rhwng cynlluniau unigol a CThEM ar sail unigol. Mae hyn yn fater sydd yn parhau angen ymchwiliad.

## 3. CASGLIADAU

3.1 Rwy'n falch o fedru hysbysu aelodau bod sefyllfa cysoni IPG Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa cymharol dda. Bydd y tîm dau berson sy'n weddill yn darfod ar y 31 Rhagfyr 2018. Bydd arweinydd y tîm yn ymddeol a'r Swyddog Pensiynau a secondwyd yn dychwelyd i'r Adain Bensiynau ar ol elwa o brofiad gwerthfawr.

3.2 Bydd unrhyw fater heb ei drin yn trosglwyddo i waith dydd i ddydd y brif Adain Bensiynau.